# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 20 Mai 2024

Amser: 14.00 - 16.11

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13905

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jack Sargeant AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Peredur Owen Griffiths AS |
| Tystion: | Caroline Allen, RSPCA Cymru<br>Dr Julia Mewes, The Mewes Vets<br>Dr Sue Paterson, Llywydd Coleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS)<br>Carlie Power, Cats Matter |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Mared Llwyd (Ail Glerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS

Roedd Rhys ab Owen AS yn absennol.

## 2 Sesiwn dystiolaeth Panel 1 - P-06-1291 Cynnal ymchwiliad i'r pryniant corfforaethol o'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Sue Paterson, Llywydd Coleg Brenhinol y Milfeddygon a Dr Julia Mewes, o Filfeddygon Mewes.

## 3 Deisebau newydd

### 3.1 P-06-1411 Rwy'n gwrthwynebu 'Bil Diwygio'r Senedd' Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 18 Medi 2023, yn dod yn gyfraith.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd fod y Bil wedi bod yn destun craffu helaeth wrth iddo fynd drwy'r Senedd. Fodd bynnag, mae'r Senedd bellach wedi'i basio ac mae'n aros am Gydsyniad Brenhinol i ddod yn Ddeddf. Yng ngoleuni hyn, cytunodd yr Aelodau nad oes unrhyw beth arall y gall y Pwyllgor ei wneud a chaeodd y ddeiseb a diolchodd i'r deisebydd.

### 3.2 P-06-1426 Dylid gosod goleuadau traffig wrth gylchfan McDonald's ym Mhont-y-pwl

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Heddlu Gwent yn gofyn am y data blynyddol diweddaraf ynghylch digwyddiadau ar y gylchfan dan sylw i ystyried a yw'r mesur diogelwch a roddwyd ar waith wedi bod yn effeithiol.

### 3.3 P-06-1437 Tyfu, nid torri, cyllid y Llyfrgell Genedlaethol, Amgueddfa Cymru a'r Comisiwn Brenhinol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- Y Pwyllgor Busnes i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ar y mater ar frys;
- Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol i dynnu sylw at y ddeiseb;

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid i dynnu sylw at y ddeiseb ac i ofyn iddynt ei hystyried wrth graffu ar y gyllideb atodol yn ddiweddarach y mis hwn, a chyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ddechrau mis Gorffennaf.

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 4.1 P-06-1326 Dylai'r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalu yng Nghymru

Nododd yr Aelodau hanes y ddeiseb a'r ddadl ddiweddar yn y Cyfarfod Llawn yn y Senedd ar 1 Mai 2024. Yng ngoleuni hyn, cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb ond parhau i gefnogi'r ymgyrchwyr yn eu rôl fel Aelodau unigol o'r Senedd.

### 4.2 P-06-1392 Diwygio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd y ddadl ddiweddar yn y Cyfarfod Llawn yn y Senedd ar 8 Mai 2024.

Yng ngoleuni'r ymateb manwl helaeth a gafwyd gan Diwygio ADY yng Nghymru, cytunodd yr Aelodau i'w anfon ymlaen at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i ofyn am atebion i'r cwestiynau penodol a godwyd, gan gynnwys sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu gweithio gydag ymgyrchwyr fel Diwygio ADY yng Nghymru.

### 4.3 P-06-1395 Atal datblygiadau newydd sylweddol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio yn ceisio atebion i'r cwestiynau penodol a godwyd yng ngohebiaeth y deisebwyr;
- Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i ofyn a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i wneud gwaith ar y mater.

## 5 Sesiwn dystiolaeth Panel 2 – Cynnal ymchwiliad i'r pryniant corfforaethol o'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Caroline Allen, Prif Swyddog Milfeddygol RSPCA Cymru a Carlie Power o Cats Matter.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Trafod y dystiolaeth – P-06-1291 Cynnal ymchwiliad i'r pryniant corfforaethol o'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru

Trafododd yr Aelodau y sesiynau tystiolaeth.

## 8 Trafod deiseb y flwyddyn

Trafododd yr Aelodau enwebiadau posibl ar gyfer deiseb y flwyddyn.